# Credydau Treth Plant, Credyd Cynhwysol a Chymhorthdal Incwm–
## Canllaw i drydydd parti

Adran Gwaith a Phensiynau | Cyllid a Thollau EM

**Canllaw i Drydydd Parti – Cymorth i blentyn a grëwyd heb ganiatâd yr hawlydd**

Noder bod ffurflen a chanllaw ar wahân ar gyfer hawlwyr sy’n byw yng Ngogledd Iwerddon.

Mae’r canllawiau hyn ar gyfer hawlwyr sy’n byw yng Nghymru, Lloegr a’r Alban yn unig.

Gallwch lawrlwytho’r ffurflen y mae’r canllaw hwn ar ei chyfer o **www.gov.uk/government/publications/support-for-a-child-conceived-without-your-consent**

### Trosolwg o’r polisi

Ers 6 Ebrill 2017 mae teuluoedd fel arfer yn gallu hawlio cymorth drwy daliadau Credyd Treth Plant, Credyd Cynhwysol neu Gymhorthdal Incwm hyd at ddau o blant.

At ddibenion y ffurflen hon, mae ‘plentyn’ yn golygu unrhyw un o dan 16 oed, neu berson ifanc o dan 20 oed sydd wedi cofrestru ar, wedi derbyn neu ddechrau addysg llawn amser nad yw’n addysg bellach, fel Safon Uwch, neu hyfforddiant cymeradwy cyn iddynt droi 19 oed.

Efallai y bydd cymorth hefyd i blant eraill os cawsant eu geni cyn 6 Ebrill 2017 neu os yw eithriad yn berthnasol.

Mae un o’r eithriadau hyn yn berthnasol i drydydd plentyn a phlant dilynol lle naill ai:

- ni wnaeth, neu na allai’r hawlydd rhoi caniatâd i’r weithred a arweiniodd at feichiogi’r plentyn, neu
- bod yr hawlydd mewn perthynas gorfodol neu o dan reolaeth gyda rhiant biolegol arall y plentyn ar neu o gwmpas adeg y beichiogi

Yn y ddau achos ni all yr eithriad fod yn gymwys os yw’r hawlydd yn dal i fyw gyda rhiant biolegol arall y plentyn. Ni fydd yn ofynnol i chi ofyn i’r hawlydd os ydynt yn byw gyda’r rhiant biolegol arall, gan y bydd yr hawlydd yn cadarnhau hyn fel rhan o’i datganiad o fewn y ffurflen.

### Pwrpas y ffurflen

Mae’r llywodraeth wedi dewis i ddatblygu ymagwedd model trydydd parti i helpu i sefydlu bod hawlwyr yn gymwys ar gyfer yr eithriad hwn.

Mae trydydd partï cymeradwy wedi cael eu dewis oherwydd bod eu swyddi eisoes yn cefnogi unigolion mewn amgylchiadau sensitif. Mae’r rhain yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol, gweithwyr cymorth arbenigol o sefydliad cymeradwy fel y rhestrir yn **www.gov.uk/government/publications/support-for-a-child-conceived-without-your-consent** neu weithwyr cymdeithasol cofrestredig.

Nodwch fod ticio blwch ar y ffurflen gyfatebol ond yn cadarnhau bod amgylchiadau’r hawlydd, fel y disgrifiwyd ganddynt, yn gyson â’r datganiad sydd wrth ochr y blwch. Nid oes unrhyw ofyniad ar yr asiantaethau neu weithwyr cymeradwy i geisio unrhyw dogfennaeth neu dystiolaeth bellach i gadarnhau’r amgylchiadau.

Mae’r model hwn yn golygu nad yw hawlwyr yn cael eu rhoi yn y sefyllfa o orfod rhoi manylion sensitif i swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau neu Gyllid a Thollau EM, ond i weithwyr proffesiynol sy’n  y sefyllfa orau i gynnig cymorth ychwanegol perthnasol. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau neu Gyllid a Thollau EM yn gweinyddu ac yn gwneud y penderfyniad ynghylch yr hawl.

Cynigiwch pa gymorth ychwanegol y teimlwch sy’n briodol i’r hawlydd. Mae cysylltiadau cymorth ychwanegol yn cael eu rhestru ar ddiwedd y ddogfen hon.

Trowch drosodd

## Euogfarnau troseddol ac iawndal anafiadau troseddol

Os oes tystiolaeth ar gael i ddangos unrhyw un o'r isod, yn ymwneud â beichiogi'r plentyn, efallai na fydd angen i'r hawlydd defnyddio'r ffurflen y mae'r canllawiau hyn yn berthnasol iddi er mwyn bod yn gymwys ar gyfer yr eithriad:

- euogfarn yn y Deyrnas Unedig am drais rhywiol (neu euogfarn dramor am drosedd debyg)
- euogfarn yng Nghymru a Lloegr ar gyfer ymddygiad gorfodol neu o dan reolaeth mewn perthynas agos neu deulu o dan adran 76 y Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 (neu euogfarn dramor am drosedd tebyg). Nid oes unrhyw drosedd gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon neu'r Alban ar hyn o bryd
- dyfarniad gan yr Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol (neu gan Wasanaethau Iawndal yng Ngogledd Iwerddon). Rhaid i hyn fod mewn cysylltiad â throsedd rywiol berthnasol, cam-drin corfforol neu anaf meddyliol, lle mae hyn yn ymwneud â beichiogi plentyn

## Diffiniadau o'r termau a ddefnyddir yn y ffurflen

## Beth yw beichiogi heb ganiatâd?

Ar gyfer y ffurflen hon, mae'n golygu beichiogi sy'n deillio o weithred lle na wnaeth yr hawlydd gytuno iddo drwy ddewis, neu nad oedd ganddynt y rhyddid neu'r gallu i gytuno drwy ddewis. Gall hyn fod lle cafodd yr hawlydd ei threisio (boed gan bartner, rhywun roedd yn ei hadnabod, neu ddieithryn). Gall hefyd gynnwys amgylchiadau ar neu o gwmpas adeg y beichiogi roedd yr hawlydd yn destun i rheoli'n aml neu'n barhaus neu ymddygiad gorfodol mewn perthynas agos neu deuluol.

## Beth yw ymddygiad gorfodol neu o dan reolaeth?

Mae ymddygiad gorfodol neu o dan reolaeth yn fath o gam-drin domestig neu drais.

Mae ymddygiad gorfodol yn weithred neu batrwm o weithredoedd o ymosodiadau, bygythiadau, cywilydd a chodi ofn neu gam-drin arall sy'n cael ei ddefnyddio i achosi niwed, cosbi, neu godi ofn ar eu dioddefwr.

Mae ymddygiad o dan reolaeth yn ystod o weithredoedd a gynlluniwyd i wneud person yn israddol a/neu'n ddibynnol drwy eu hynysu o ffynonellau o gymorth, cymryd mantais o'u hadnoddau a'u galluoedd er budd personol, yn eu hamddifadu o'r dulliau sydd eu hangen ar gyfer annibyniaeth, ymwrthedd a dianc a rheoleiddio eu hymddygiad o ddydd i ddydd.

Gallai ymddygiadau gorfodol neu o dan reolaeth gynnwys:

- ynysu person o'u ffrindiau a'u teulu
- eu hamddifadu o'u hanghenion sylfaenol
- monitro eu hamser
- monitro person drwy offer cyfathrebu ar-lein neu drwy ddefnyddio spyware
- cymryd rheolaeth dros agweddau o'u bywyd bob dydd, fel lle y gallant fynd, pwy y gallant weld, beth i'w wisgo a phryd y gallant gysgu
- eu hamddifadu o fynediad at wasanaethau cymorth, fel cymorth arbenigol neu wasanaethau meddygol
- eu rhoi i lawr dro ar ôl tro fel dweud wrthynt eu bod yn ddi-werth
- gorfodi rheolau a gweithgaredd sy'n bychanu, diraddio neu ddiddynoli'r dioddefwr
- gorfodi'r dioddefwr i gymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol fel dwyn o siopau, esgeulustod neu gam-drin plant i annog hunan-fai ac atal datgelu i awdurdodau
- cam-drin ariannol gan gynnwys rheoli cyllid, fel dim ond caniatáu i berson gael lwfans cosbol
- bygythiadau i niweidio neu ladd
- bygythiadau i blentyn
- bygythiadau i ddatgelu neu gyhoeddi gwybodaeth breifat (e.e. bygwth 'datgelu rhywbeth' am rywun)
- ymosodiad
- difrod troseddol (fel dinistrio nwyddau'r cartref)
- treisio
- atal person rhag cael mynediad at gludiant neu o weithio

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

Ar gyfer yr eithriad hwn, mae'n rhaid bod yr ymddygiad gorfodol neu o dan reolaeth wedi cael effaith ddifrifol ar yr hawlydd. Mae hyn yn golygu ei fod wedi achosi i rywun ofni y bydd trais yn cael ei ddefnyddio yn eu herbyn ar o leiaf ddau achlysur; neu wedi achosi iddynt gael braw neu drallod difrifol a gafodd effaith andwyol sylweddol ar eu gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

## Yr hyn a gwmpesir gan 'berthynas agos neu deulu'?

I dderbyn yr eithriad oherwydd ymddygiad gorfodol neu o dan reolaeth, mae'n rhaid bod yr hawlydd, ar neu o gwmpas yr amser y cafodd y plentyn ei feichiogi, wedi bod â chysylltiad personol â'r person sy'n debygol o fod yn rhiant biolegol arall y plentyn. Mae "cysylltiad personol" yn cwmpasu sefyllfaoedd lle:

- eu bod mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd (p'un a oeddent yn byw gyda'i gilydd neu beidio)
- roeddent yn byw gyda'i gilydd yn yr un cartref ac roeddent yn aelodau o'r un teulu neu wedi bod mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd yn flaenorol. Mae aelodau o'r teulu yn cynnwys cyn-bartner neu berthynas fel rhiant, llys-riant, brawd neu chwaer, llys-frawd neu lys-chwaer (a gall hefyd gynnwys perthynas i briod neu bartner yr hawlydd)

## Adrannau'r ffurflen i'w cwblhau

Rhaid i'r hawlydd gwblhau rhan 1.

Dylech gwblhau'r holl adrannau 2 a 3 o'r ffurflen.

Ar ddiwedd rhan 3 dylech ddarparu dilysiant ar gyfer eich proffesiwn, rôl gweithiwr cymorth neu statws asiantaeth gymeradwy:

- os ydych yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol, rhowch eich rhif cofrestru proffesiynol a/neu stamp
- os ydych yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig rhowch eich rhif cofrestru
- os ydych yn weithiwr cymorth arbenigol o sefydliad cymeradwy rhowch eich rhif cyfeirnod asiantaeth neu rif elusen gofrestredig a nodwch yn benodol

Yna rhaid i'r hawlydd dychwelyd y ffurflen wedi'i llenwi cyn gynted ag y bo modd i'r Adran Gwaith a Phensiynau os ydynt yn hawlio Credyd Cynhwysol neu Gymhorthdal Incwm, neu Gyllid a Thollau EM os ydynt yn hawlio Credydau Treth Plant.

## Gofynion allweddol eraill

Dylech ond llenwi'r ffurflen hon wrth ymdrin â'ch dyletswyddau proffesiynol.

## Penderfynu a yw amgylchiadau'r hawlydd yn cwrdd â'r blychau ticio

Yn eich dyletswyddau proffesiynol presennol, efallai y byddwch wedi siarad yn flaenorol gyda'r hawlydd am amgylchiadau sy'n berthnasol â'r eithriad hwn ac yn teimlo y gallwch wneud y penderfyniad hwn. Os yw hyn yn wir efallai na fydd angen i chi drafod yr amgylchiadau hyn eto i lenwi'r ffurflen.

Os nad ydych wedi cyfarfod yr hawlydd yn flaenorol ac wedi trafod yr amgylchiadau hyn, ticiwch unrhyw flychau unrhyw flychau sy'n cwrdd â'r amgylchiadau mae'r hawlydd yn eu disgrifio.

Gan y bydd gwahanol bobl yn ymddwyn mewn gwahanol ffyrdd, peidiwch farnu ymlaen llaw sut y gall unigolyn yn yr amgylchiadau hyn ymddwyn wrth siarad am eu profiad.

**Nodwch** – drwy dicio'r blwch rydych ond yn cadarnhau eich dealltwriaeth bod amgylchiadau'r hawlydd, fel y disgrifiwyd ganddynt, yn gyson â'r datganiad sydd wrth ochr y blwch.

**Nid oes unrhyw ofyniad arnoch i geisio unrhyw dystiolaeth neu ddogfennaeth bellach i gadarnhau'r amgylchiadau.**

## Cwestiynau pellach

1. Pa flychau sydd angen eu ticio i'r hawlydd fod yn gymwys am yr eithriad?

**a.** Ticiwch cymaint o flychau ag sy'n berthnasol i'r amgylchiadau mae'r hawlydd wedi'u hysbysu i chi. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau neu Gyllid a Thollau EM yn penderfynu a yw'r unigolyn yn gymwys ar gyfer yr eithriad yn seiliedig ar ba flychau y rhoddir tic ynddynt.

**2.** A oes gennyf unrhyw gyfrifoldebau cyfreithiol i hysbysu unrhyw awdurdodau nawr bod yr hawlydd wedi dweud wrthyf am yr amgylchiadau hyn?

**a.** Byddwch yn parhau i weithredu o fewn eich dyletswydd o gyfrinachedd proffesiynol ac unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol sydd gennych ar hyn o bryd. Er enghraifft, diogelu plant a'r cyhoedd. Ni fydd cwblhau'r ffurflen hon a chwrdd â'r hawlydd yn dod ag unrhyw gyfrifoldebau cyfreithiol ychwanegol i'ch rôl broffesiynol bresennol.

**3.** Beth ddylai'r hawlydd wneud gyda'r ffurflen ar ôl ei chwblhau?

**a.** Cyfrifoldeb yr hawlydd yw dychwelyd y ffurflen i'r Adran Gwaith a Phensiynau neu i Gyllid a Thollau EM. Ceir canllawiau ar dudalen olaf y ffurflen i'w cynorthwyo i wneud hynny. Gall Cyllid a Thollau EM neu'r Adran Gwaith a Phensiynau gysylltu â chi i gadarnhau eich dilysiant.

**4.** Beth mae pwynt (2) o'r ffurflen yn ei olygu drwy "roedd yr hawlydd heb y rhyddid neu'r gallu i gytuno drwy ddewis"?

**a.** Gall unigolyn beidio meddu ar y rhyddid neu'r gallu i gytuno drwy ddewis oherwydd amrywiaeth o amgylchiadau gwahanol, gan gynnwys o ganlyniad i anhwylder meddwl neu effeithiau alcohol neu gyffuriau. O ran anhwylder meddwl, efallai fod yr unigolyn yn brin o ddealltwriaeth ddigonol o natur, neu ganlyniadau rhesymol y gellir eu rhagweld, o'r hyn a oedd yn cael ei wneud.

**5.** Sut fydd y llywodraeth yn trin y data sensitif hwn?

**a.** Bydd y Llywodraeth yn trin y wybodaeth sensitif hon yn synhwyrol ac yn gyfrinachol, yn unol â'i reolau diogelu data llym. Ni fydd unrhyw ddogfennau a anfonir i hawlwyr yn cynnwys y rheswm am y gefnogaeth ychwanegol ar gyfer y plentyn.

**6.** Pa gymorth allanol alla i gynnig i'r hawlydd neu eu cyfeirio at?

**a.** Gweler yr adran **Cynorthwyo dioddefwyr treisio, cam-drin rhywiol a cham-drin domestig** ar y dudalen nesaf.

## Cynorthwyo dioddefwyr treisio, cam-drin rhywiol a cham-drin domestig

Mae'r canlynol yn rhestr o sefydliadau sydd ar gael a allai ddarparu cymorth ychwanegol i'r hawlydd:

- **Sexual Assault Referral Centres (SARCs)** – Mae gan rai ardaloedd o'r DU SARCs, defnydd yr offer NHS Choices i ddod o hyd i un yn eich ardal chi. Chwiliwch am 'Sexual Assault Referral Centres' yn **www.nhs.uk** neu ewch i **www.nhs.uk/service-search/Rape-and-sexual-assault-referral-centres/Location/364**
- **Mae The Survivors Trust Cymru** – gyda 135 o asiantaethau aelodau ar draws y DU sy'n darparu cymorth i oroeswyr treisio, trais rhywiol neu gam-drin rhywiol yn ystod plentyndod. Ffôn: **0808 801 0818** **www.survivorstrustcymru.org/cy**
- **Rape Crisis England and Wales** – yn gorff ymbarél cenedlaethol ar gyfer rhwydwaith o Ganolfannau Argyfwng Treisio annibynnol sy'n darparu cefnogaeth arbenigol i ddioddefwyr a goroeswyr treisio, trais rhywiol a cham-drin rhywiol yn ystod plentyndod. Llinell gymorth genedlaethol **0808 802 9999** neu ewch i **www.rapecrisis.org.uk/contact.php**
- **Mae The National Domestic Violence Helpline (Lloegr)** – yn cael ei redeg ar y cyd gan Gymorth i Ferched a Lloches ac yn wasanaeth rhadffôn 24 awr. Ffôn **0808 2000 247** neu ewch i **www.nationaldomesticviolencehelpline.org.uk**
- **Mae Rape Crisis Scotland – ffôn 0808 801 0302** neu ewch i **www.rapecrisisscotland.org.uk**
- **Scottish Domestic Abuse and Forced Marriage Helpline** – llinell gymorth 24 awr am ddim wedi'i staffio gan weithwyr a gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi'n arbennig ac wedi'i reoli gan Gymorth i Ferched yr Alban. Ffôn **0800 027 1234** neu ewch i **www.natdomesticabuseforcedmarriagehelpline.org.uk**
- **Mae Cymorth i Ferched Cymru** – yn elusen genedlaethol a sefydliad ymbarél sydd ag asiantaethau sy'n aelodau ar draws Cymru sy'n darparu cymorth ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn merched. Mae rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt i'w cael yn **www.welshwomensaid.org.uk**
- **Llinell Gymorth Byw Heb Ofn** – llinell gymorth 24 awr am ddim yn cael ei redeg gan Gymorth i Ferched Cymru yn darparu unrhyw un yng Nghymru gyda chymorth a gwybodaeth arbenigol am gam-drin domestig, trais rhywiol ac unrhyw ffurf ar drais yn erbyn merched. Ffôn **0808 80 10 800** neu ewch i **www.livefearfree.gov.wales/cy**
- **Mae Victim Support** – yn elusen sy'n cynnig cymorth annibynnol i bobl yr effeithir arnynt gan droseddau neu ddigwyddiadau trawmatig. Ffôn **0808 168 9111** neu ewch i **www.victimsupport.org.uk/help-and-support/get-help/support-near-you/wales**
- **Mae The National Stalking Helpline** – yn darparu arweiniad a gwybodaeth i unrhyw un sydd ar hyn o bryd yn cael neu sydd wedi cael eu heffeithio'n flaenorol gan aflonyddu neu stelcio. Ffôn **0808 802 0300** neu ebost **advice@stalkinghelpline.org**
- **Mae Llinell Gymorth 24 awr Trais Domestig a Rhywiol Gogledd Iwerddon** - yn cael ei rhedeg gan Gymorth Ferched Gogledd Iwerddon ac yn wasanaeth rhadffôn sy'n darparu cymorth i bawb sy'n cael eu heffeithio gan drais domestig a rhywiol. Ffôniwch **0808 802 1414** neu ewch i **www.womensaidni.org**
- **Mae NI Direct** - ar gyfer Gogledd Iwerddon cymorth a chefnogaeth benodol i ddioddefwyr ymosodiadau rhywiol a threisio, gan gynnwys dolenni i sefydliadau cymorth, ewch i dudalen benodol NI Direct **www.nidirect.gov.uk/articles/help-and-supportvictims-sexual-assault-and-rape**
- **Mae NEXUS NI** - yn gweithredu ar draws Gogledd Iwerddon i ymateb i bobl sydd wedi profi cam-drin rhywiol a gall elwa o arbenigwr cwnsela i oroeswyr cam-drin rhywiol neu trais. Ewch i **www.nexusni.org**
- **Victim Support NI** - yn cefnogi cymorth ymarferol ac emosiynol i holl ddioddefwyr troseddau mewn swyddfeydd lleol ar draws Gogledd Iwerddon. Ffôniwch **0845 303 0900** neu ewch i **www.victimsupportni.co.uk**
- **Ffederasiwn Cymorth i Ferched Gogledd Iwerddon** - Mae Cymorth i Ferched yn darparu cyngor, cymorth a llety diogel i ferched (a'u plant) sydd wedi cael eu cam-drin yn feddyliol, yn gorfforol a/neu'n rhywiol gan eu partner neu gyn-bartner. Llinell gymorth am ddim 24 awr ar **0808 802 1414** neu ewch i **www.welshwomensaid.org.uk.cy**
- **Mae Relate NI** - yn cynnig cwnsela proffesiynol a gwasanaethau therapiwtig i wella lles emosiynol mewn unigolion, cyplau, teuluoedd a chymunedau. Ewch i **www.relateni.org**

**Noder:** Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a gall hefyd bod sefydliadau lleol y gallai'r hawlydd fod yn ymwybodol ohonynt.

Efallai y gwelwch wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Ddioddefwyr yn ddefnyddiol ar gyfer dod o hyd i gymorth yn eich ardal lleol: **www.victimsinformationservice.org.uk**

### Mwy o wybodaeth

Am fwy o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/guidance/claiming-benefits-for-2-or-more-children**

Os ydych yn weithiwr trydydd parti proffesiynol a bod gennych gwestiwn am sut i gwblhau'r ffurflen, ffoniwch

Llinell Gymorth Credyd Treth CThEM **0300 200 1900**, neu DWP ar **0800 328 1744**